

PWYLLGOR:	IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
DYDDIAD:	26 GORFFENNAF 2017
TEITL:	CAIS AM DRWYDDED EIDDO - TY CASTELL, 18 STRYD FAWR CAERNARFON
PWRPAS:	ER PENDERFYNIAD
AWDUR:	PENNAETH RHEOLEIDDIO

CAIS A DDERBYNIWYD

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Tŷ Castell, 18 Stryd Fawr, Caernarfon LL55 1RN oddi wrth Gareth Fôn Jones a Roland Evans Parc, Dinas, Caernarfon LL54 5UF.

Mae'r eiddo yn fwyty newydd gyda gwesty 'bwtic' 5 stafell.

Gwneir y cais mewn perthynas â chyflenwi alcohol, cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, a lluniaeth hwyr y nos. Bwriedir cynnig cerddoriaeth fyw acwstig yn achlysurol, ac ni ragwelir y bydd cerddoriaeth fyw yn cael ei gynnal yn hwyr. Deallir mai cefndirol yn unig y bydd cerddoriaeth wedi ei recordio. Gofynnir am yr hawl i weini lluniaeth hwyr y nos ac alcohol yn hwyrach ar ddiwrnodau gŵyl.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG	TRWYDDED ARFAETHEDIG
Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol* - Ar ac Oddi ar yr Eiddo/On and Off Premises	Dydd Llun/Monday 11:00-02:00 Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-02:00 Dydd Mercher/Wednesday 11:00-02:00 Dydd Iau/Thursday 11:00-02:00 Dydd Gwener/Friday 11:00-02:00* Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-02:00 Dydd Sul/Sunday 11:00-01:00 *Gall y bwyty fod yn agored tan 02:30 ar ddiwrnodau gŵyl
Cerddoriaeth Fyw/Live Music - Dan Do/Indoors	Dydd Llun/Monday 12:00-00:00 Dydd Mawrth/Tuesday 18:00-00:00 Dydd Mercher/Wednesday 18:00-00:00 Dydd Iau/Thursday 18:00-00:00 Dydd Gwener/Friday 12:00-01:00 Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-01:00 Dydd Sul/Sunday 12:00-00:00
Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music - Dan Do/Indoors	Dydd Llun/Monday 08:00-00:00 Dydd Mawrth/Tuesday 08:00-00:00 Dydd Mercher/Wednesday 08:00-00:00 Dydd Iau/Thursday 08:00-00:00 Dydd Gwener/Friday 08:00-01:00 Dydd Sadwrn/Saturday 08:00-01:00 Dydd Sul/Sunday 08:00-00:00

Darparu lluniaeth hwyr y nos - o dan do	Dydd Llun/Monday 23:00-00:00 Dydd Mawrth/Tuesday 23:00-00:00 Dydd Mercher/Wednesday 23:00-00:00 Dydd Iau/Thursday 23:00-00:00 Dydd Gwener/Friday 23:00-01:00 Dydd Sadwrn/Saturday 23:00-01:00
Oriau agor a chau i'r Cyhoedd*	Dydd Llun/Monday 08:00-02:00 Dydd Mawrth/Tuesday 08:00-02:00 Dydd Mercher/Wednesday 08:00-02:00 Dydd Iau/Thursday 08:00-02:00 Dydd Gwener/Friday 08:00-02:30 Dydd Sadwrn/Saturday 08:00-02:30 Dydd Sul/Sunday 08:00-01:30 * Gall y bwyty fod yn agored tan 02:30 ar ddiwrnodau gŵyl

Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- Bwriedir gofyn am brawf oedran gan unigolion sydd yn edrych o dan 25 a darparu arweiniad i staff ar sut i ofyn am brawf oedran dilys
- Bwriedir cynnal system camerâu teledu cylch cyfyng oddi fewn wrth y ddwy fynedfa a'r grisiau sy'n arwain i'r ystafelloedd aros.
- Hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ymysg staff
- Polisi dim cyffuriau
- Hyfforddiant i staff ar sut i ddelio gydag ymddygiad treisgar
- Gofynnir i'r rhai nad ydynt yn breswylwyr i adael yr eiddo yn ddistaw

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

YMATEBION	SYLWADAU
Cyngor Tref	Llythyr – cefnogi'r cais
Preswylwyr cyfagos	2 llythyr yn gwrthwynebu
Gwasanaeth Cynllunio , Cyngor Gwynedd	Llythyr –dim gwrthwynebiad
Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd	Sylwadau a chynnig amodau

Gwrthwynebiadau – Trigolion lleol

Cafwyd 2 lythyr yn gwrthwynebu'r oriau agor hwyr ac ar gyfer gwerthu alcohol ac adloniant ar sail yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus. Nododd y ddau ymatebydd eu bod mewn egwyddor yn gefnogol i'r datblygiad arfaethedig; ond yn bryderus ar yr effaith y gallai oriau hwyr y cais ei gael ar niwsans cyhoeddus, gyda phobl yn creu sŵn wrth adael yr eiddo yn hwyr yn y nos, ac yn amharu ar breswylwyr cyfagos.

Nodwyd hefyd fod sawl eiddo trwyddedig eisoes yn yr ardal a bod pryder y byddai eiddo trwyddedig arall yn cynyddu'r potensial o sŵn.

Sylwadau Gwarchod y Cyhoedd

Datganwyd pryderon gan swyddogion y Gwasanaeth parthed y potensial o niwsans sŵn oherwydd yr oriau hwyr arfaethedig ar gyfer gweithgareddau trwyddedig ar yr eiddo. Yn dilyn trafodaethau gyda'r ymgeisydd, cytunwyd i weithredu i leihau oriau gweithgareddau trwyddedig, ac i dderbyn amodau sŵn penodol fel rhan o amodau'r atodlen weithredol y drwydded. Cytunwyd i gwtogi oriau gweithgareddau trwyddedig i 00:00 o ddydd Llun i nos Sadwrn, a tan 22:00 ar nos Sul. Cytunwyd ymestyniad o awr ar yr oriau hyn ar ddyddiau gŵyl.

ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.